# Ddyfod Crist Iesu i'r byd i gadw pechaduriaid

**Gwir yw'r gair, ac yn haeddu pob derbyniad, ddyfod Crist Iesu i'r byd i gadw pechaduriaid; o ba rai, pennaf ydwyf i.** **(1Timotheus 1:15)**

## Gwir yw'r Gair

Ni chymerir yr adnod uchod o ysgrifau seciwlar, athronyddol na chrefyddol dynion annuwiol, ond o'r Beibl Sanctaidd, ***"Gair y Gwirionedd"*** (2Timotheus 2:15) ac felly mae'n cario awdurdod dwyfol. Profir cymaint o deimlad sydd gan Y Duw Digyfnewid yn ein enaid tragwyddol, trwy gofnodi'r fath ddywediad yn y Beibl er ein sylw calonnog. Mae'n gwbl ddibynadwy, yn wahanol i lawer o gyhoeddiadau dynion sy'n rhagfarnllyd neu'n dwyllodrus, yn enwedig cyfnodolion gwyddonol sy'n damcaniaethu ble mae dyn wedi dod o, a ble mae'n mynd, a materion bywyd a marwolaeth heb feddwl am y Duw byw, y Creawdwr ffyddlon a chynhaliwr ein bodolaeth corfforol.

## Yn haeddu pob derbyniad

Mae'n cynnwys gwirionedd y dylai pawb ei gofleidio'n ddiamod, heb i neb ei eithrio, beth bynnag fo'u statws cymdeithasol, academaidd neu genedlaethol. Mae'n cwmpasu holl ddynolryw, beth bynnag eu rhyw, eu tafod a'i hoedran. Nid yw'n ymwneud â maldodi ein cyrff ond cadwraeth ein heneidiau; felly mae ei werth yn llawer uwch na'r ffyniant materol y mae llawer o gymdeithasau'n dyheu amdano heddiw: ***"Canys pa lesâd i ddyn, os ennill yr holl fyd, a cholli ei enaid ei hun?"*** (Marc 8:36). Nid yw'n cynnwys unrhyw gymalau cudd, ac os bydd yn cael ei gyfaddef yn rhwydd a'i weithredu arno, bydd yn eich troi oddi wrth y Ffordd Lydan anghyfiawnder sy'n arwain at

Farwolaeth, ac yn eich rhoi ar y Ffordd Gul o faddeuant sancteiddrwydd a Bywyd Tragwyddol yng Nghrist Iesu.

## Ddyfod Crist Iesu i'r byd

Mae ei ffocws ar berson â gwaith yr Arglwydd Iesu Grist, Mab tragwyddol Duw; yr Hwn oedd a'i gyn-fodolaeth gyda Duw y Tad, yr Un sy'n gyd-gyfartal gyda Duw y Tad, yr Hwn, cyn ***"ddyfod Crist Iesu i'r byd"*** amser, oedd wir yn ***"Dduw a ymddangosodd yn y cnawd"*** (1Timotheus 3:16). Nid oedd ganddo wreiddyn. O grôth gwyryf gwelodd Bethlehem Ei fynedfa mewn i'n cylch bodolaeth, er mwyn iddo ddod yn gyfryngwr rhwng Duw a dynion: ***"Canys un Duw sydd, ac un cyfryngwr hefyd rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu"*** (1Timotheus 2:5).

Ni allai ei fywyd dibechod achub, ond ein condemnio yn unig. Ni ddaeth i bregethu côd moeseg, na gadael esiampl inni ei ddilyn i haeddu bywyd tragwyddol, fel y mae rhai yn cyhoeddi ar gam, oherwydd ni fyddai unrhyw un ohonom yn atodi ato. Ar y noson cafodd Ei fradychu fe dystiodd amdano'i hun, ***"Myfi yw'r ffordd, a'r gwirionedd, a'r bywyd: nid yw neb yn dyfod at y Tad, ond trwof fi"*** (Ioan 14:6). Nid oedd ei farwolaeth ar groes Calfaria yn brawf o wendid, ond o ymostyngiad a chariad tuag at y Tad a'r ddynoliaeth, er mwyn i Dduw, trwy Ei farwolaeth a'i atgyfodiad corfforol, faddau inni yn gyfiawn am ein pechodau, oherwydd Ef.

## I gadw pechaduriaid

Mae digon ddarpariaeth yng ngwaed tywalltiedig Crist i bawb gael eu hachub. Gall cariad Duw eich cofleidio ***"Canys nid oes gwahaniaeth: oblegid pawb a bechasant, ac ydynt yn ôl am ogoniant Duw"*** (Rhufeiniaid 3:22,23). Mae angen eich achub, ond a ydych chi'n barod i gyfaddef i'r pechod hwnnw sydd wedi treiddio i'ch calon (eich hunan fewnol) ac wedi amlygu ei hun yn eich corff? ***"Canys o'r galon y mae meddyliau drwg yn dyfod allan, lladdiadau, tor-priodasau,***

***godinebau, lladradau, camdystiolaethau, cablau"*** (Mathew 15:19). A ydych yn fodlon edifarhau, a chefni a'r y pechod hwnnw? ***"Eithr, onid edifarhewch, chwi a ddifethir oll yn yr un modd"*** (Luc 13:3).

Mae angen i chi gredu a gorffwys yn galonnog ar yr Arglwydd Iesu Grist, gan ymddiried yn unig yn Ei farwolaeth aberthol a'i atgyfodiad fel yr unig sail dros faddeuant y pechodau truenus hynny yr ydych mor daer eu hangen, ac ymostwng iddo Ef fel Arglwydd: ***"Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fyddi***" (Actau 16:31).

## O ba rai, pennaf ydwyf i

Mae awdur yr adnod dan sylw (a elwir Saul neu Paul), yn ystyried ei hun fel 'Y pechadur pennaf' oherwydd ei wrthwynebiad treisgar i Grist cyn ei dröedigaeth. Sylweddolodd Paul ei fod wedi cael trugaredd ***"fel y dangosai Iesu Grist bob hiroddef, er siampl i'r rhai a gredant rhag llaw ynddo Ef"*** (1Timotheus 1:16) i fywyd tragwyddol. Os allai Duw faddau Saul, a gyfaddefodd fel anghredinwr ei fod yn "***gablwr, ac yn erlidiwr, ac yn drahaus"*** (1Timotheus 1:13), gallwn fod yn siwr ei fod yn barod i faddau a newid ni, ta waith ein heuogrwydd. Trawsnewidiwyd bywyd Saul pan gefnodd ar ei bechod a chyfaddef Crist fel Ei Arglwydd a'i Waredwr. Felly hefyd eich bywyd chwi, os ymatebwch fel y gwnaeth ef.

---

Mae'r rhain yn faterion hanfodol Bywyd a Marwolaeth. Byddwn i gyd yn atebol i Dduw ar Ddydd Y Farn anhygoel honno am ein pechodau, ac yn ein ymateb i'w Fab, ***"Felly gan hynny pob un ohonom drosto'i hun a rydd gyfrif i Dduw"*** (Rhufeiniaid 14:12). Bydd tragwyddoldeb yr Ail Farwolaeth yn y Llyn Tân yn realiti i bawb sy'n gwrthod yr iachawdwriaeth mor fawr hon a wnaed yn bosibl ar gost mor fawr i Dduw Y Tad a'i Fab annwyl. Gwrandewch ar eiriau olaf y Mab: ***"Canys ni ddeuthum i farnu'r byd, eithr i achub y byd. Yr hwn sydd yn fy nirmygu i, ac heb dderbyn fy ngeiriau, y mae iddo un yn ei farnu: y gair a leferais i, hwnnw a'i barn ef yn y dydd diwethaf"*** (Ioan 12:47,48).